**Memorandwm Esboniadol i Reoliadau Taliadau am Wyliadwriaeth Gweddillion (Diwygio) (Cymru) 2024**

Mae'r Memorandwm Esboniadol hwn wedi cael ei baratoi gan Swyddfa'r Prif Filfeddyg o fewn Adran Llywodraeth Leol, Tai, Newid Hinsawdd a Materion Gwledig Llywodraeth Cymru, ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad Ysgrifennydd y Cabinet**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Taliadau am Wyliadwriaeth Gweddillion (Diwygio) (Cymru) 2024.

Huw Irranca-Davies AS
**Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**

20 Medi 2024

# Rhan 1

## 1. Disgrifiad

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Taliadau am Wyliadwriaeth Gweddillion 2006 (Rheoliadau 2006) i ddiweddaru'r taliadau sy'n daladwy i'r Gyfarwyddiaeth Meddyginiaethau Milfeddygol (VMD) mewn perthynas â gwyliadwriaeth ar gyfer gweddillion meddyginiaethau milfeddygol a sylweddau penodol eraill mewn anifeiliaid cynnyrch bwyd, a chynhyrchion anifeiliaid fel rhan o'r Rhaglen Rheoli Gweddillion Genedlaethol (NRCP). Fe'u gwneir gan ddefnyddio pwerau a roddir gan Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 ('Deddf 1990').

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Yn unol ag adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, hysbyswyd y Llywydd y daw'r Rheoliadau Taliadau am Wyliadwriaeth Gweddillion (Diwygio) (Cymru) 2024 i rym lai na 21 diwrnod ar ôl i'r offeryn gael ei osod. Mae'r ddeddfwriaeth hon yn angenrheidiol er mwyn sicrhau bod costau priodol darparu'r NRCP yn gallu cael eu hadennill. Cytunwyd ar y dyddiad dod i rym o 1 Hydref gyda Llywodraeth y DU a Gweinidogion yr Alban. Byddai gwahaniaethau yn arwain at godi cyfraddau gwahanol yng Nghymru o'i gymharu â gweddill Prydain Fawr a methiant o ran cyd-fynd â dull gweithredu ar draws Prydain Fawr a gytunwyd yn y Grŵp Polisi Anifeiliaid a Chlefydau. Byddai hyn yn arwain at amharu'n sylweddol ar y diwydiant.

## 3. Y Cyd-destun Polisi

Mae'r NRCP yn rhaglen statudol a ariennir gan y diwydiant sy'n cael ei darparu gan y VMD. Mae'r NRCP yn helpu i ddiogelu iechyd pobl drwy gymryd samplau o gig neu gynhyrchion anifeiliaid eraill i brofi am lefelau anniogel o weddillion meddyginiaethau milfeddygol, neu sylweddau gwaharddedig eraill a allai fod yn niweidiol. Mae'r NRCP yn helpu i roi sicrwydd ynghylch diogelwch cynhyrchion bwyd, a thrwy wneud hynny mae hefyd yn cefnogi allforion bwyd y DU sy'n werth tua £12 biliwn i economi'r DU. Mae'r NRCP yn cydymffurfio â safonau rhyngwladol a ategir gan gytundeb Sefydliad Masnach y Byd ar fesurau iechydol a ffytoiechydol.

Mae'r rhaglen yn gweithredu ar sail adennill costau llawn, felly mae pob un o'r sectorau da byw sy'n cymryd rhan yn cael eu hanfonebu bob blwyddyn. Ar hyn o bryd mae'r rhaglen yn costio tua £5 miliwn y flwyddyn, a rhagwelir y bydd hyn yn cyrraedd tua £8m y flwyddyn ar gyfer Prydain Fawr erbyn 2028. Mae hyn oherwydd cynnydd yng nghostau gwasanaethau a gaffaelir sy'n angenrheidiol i ddarparu'r rhaglen fel samplu, profi a nwyddau traul. Heb y diwygiadau i'r taliadau cyfredol y mae'r diwydiant yn eu talu, rhagwelir y bydd diffyg o £1.2 miliwn yng nghostau'r rhaglen yn y flwyddyn ariannol 2024-2025, ac mae disgwyl i'r diffyg godi i £3 miliwn y flwyddyn erbyn 2029.

Pennir yr egwyddorion o ran sut mae'r VMD yn codi taliadau gan Drysorlys EF yn y canllawiau ar Reoli Arian Cyhoeddus. Yr egwyddor sylfaenol yw pennu ffioedd a thaliadau statudol er mwyn adennill costau llawn. Mae hyn yn golygu bod y diwydiannau a reoleiddir yn ysgwyddo cost rheoleiddio ac nid yw'r VMD yn elwa ar ffioedd nac yn gwneud colled y mae'n rhaid wedyn i adrannau'r Llywodraeth na

threthdalwyr y DU roi cymhorthdal ar eu cyfer. Er mwyn cyflawni hyn ar gyfer yr NRCP, mae'r VMD yn cyfrifo taliadau ar gyfer pob sector ar gyfer y flwyddyn ariannol i ddod, yn seiliedig ar y costau a ddarperir gan y contractwyr sy'n casglu a dadansoddi'r samplau a'r gyfradd brosesu a ragwelir ar gyfer y sectorau.

Mae polisi a phrofion gwyliadwriaeth gweddillion yn fater datganoledig, felly mae'r VMD yn gweithio mewn partneriaeth agos â Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban i gyflawni'r NRCP ym Mhrydain Fawr.

***Ymgynghori a methodoleg***

Rhwng 17 Ionawr 2024 a 28 Mawrth 2024, cyhoeddodd y VMD, Llywodraeth yr Alban a Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar y cyd ar daliadau diwygiedig ar gyfer yr NRCP. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad gan ddefnyddio CitizenSpace, offeryn ymgynghori ar-lein Llywodraeth y DU. Esboniodd y ddogfen ymgynghori y rhesymau y tu ôl i'r angen i gynyddu taliadau ar gyfer busnesau a gwmpesir gan yr NRCP. Roedd yn nodi'r tri opsiwn canlynol gydag argymhelliad ar gyfer Opsiwn C:

a) gwneud dim. Byddai'r taliadau'n cael eu cynnal ar y lefelau presennol. Byddai hyn yn peryglu diogelwch bwyd a rhwymedigaethau masnach ryngwladol.

b) cynnydd cyfradd safonol o 65% yn y taliadau a gymhwysir ar draws pob sector sy'n cymryd rhan yn yr NRCP. Byddai hyn yn peri risg bod sectorau yn rhoi croes-gymhorthdal i sectorau eraill.

c) cynnydd canran penodol wedi'i deilwra ar gyfer pob sector diwydiant yn seiliedig ar eu cynllun samplu penodol a'u lefelau cynhyrchu.

Mae copi o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ac ymateb y Llywodraeth i'w gweld yma: Crynodeb o'r ymatebion ac ymateb y llywodraeth - GOV.UK (www.gov.uk)

Pan fo Rheoliadau yn cael eu gwneud gan ddefnyddio pwerau a roddir gan Ddeddf 1990, mae adran 48(4A) o'r Ddeddf honno yn ei gwneud yn ofynnol: "*Before making any regulations or order under this Act, the Secretary of State shall have regard to any relevant advice given by the Food Standards Agency".* Yng Nghymru, trosglwyddwyd swyddogaethau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhinwedd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) fel y'u darllenwyd gydag adran 40(3) o Ddeddf Safonau Bwyd 1999. Mae'r swyddogaethau hynny bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori, a chael cyngor, gan Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru mewn perthynas â'r offeryn hwn.

***Beth oedd y polisi blaenorol, sut mae hyn yn wahanol?***

Mae'r offeryn statudol yn cynyddu'r taliadau sy'n cael eu talu gan weithredwyr busnesau bwyd sy'n rhan o'r NRCP. Mae'r taliadau'n cael eu cynyddu o 1 Hydref 2024, gyda chynnydd pellach a fydd yn gymwys o 1 Ebrill 2025. Mae'r graddau y codwyd y taliadau yn amrywio gan ei fod yn adlewyrchu'r lefelau cynhyrchu a ragwelir a chostau

penodol y gweithgareddau sy'n gysylltiedig â darparu'r gwasanaethau ar gyfer pob sector diwydiant.

Nodir lefel y cynnydd ar gyfer y taliadau yn Atodlen 1 yr Offeryn.

***Sut mae'r gyfraith wedi newid?***

Mae gwyliadwriaeth anifeiliaid a chynhyrchion anifeiliaid ar gyfer gweddillion cynhyrchion meddyginiaethol milfeddygol a sylweddau penodol eraill yn ofyniad o dan Reoliad a Gymathwyd (EU) 2017/625 a ddisodlodd Gyfarwyddeb yr UE 96/23/EC. Mae Rheoliadau 2006 yn gwneud darpariaeth ar gyfer y taliadau sy'n daladwy i'r VMD mewn perthynas â'r arolygiadau a'r rheolaethau sy'n ofynnol fel rhan o'r wyliadwriaeth honno. Mae'r Offeryn hwn yn diwygio Rheoliadau 2006, gan ddiweddaru'r taliadau statudol i sicrhau bod y VMD yn adennill costau ei weithgareddau rheoleiddio.

Mae'r Offeryn hefyd yn rhoi swyddogaethau i'r Awdurdodau Cymwys perthnasol godi'r taliadau ac yn rhoi swyddogaethau gorfodi mewn perthynas â rheoliadau 2006 i Weinidogion Cymru.

Cymhwysir yr Offeryn hwn yn diriogaethol yng Nghymru yn unig. Bydd Llywodraeth yr Alban a Llywodraeth y DU yn gosod offerynnau statudol ar wahân i ddiwygio'r taliadau sy'n gymwys yng ngweddill Prydain Fawr.

# Rhan 2

**4. Effaith**

***Asesiad Effaith Rheoleiddiol (RIA)***

Yn unol â Chod Asesiad Effaith Rheoleiddiol Gweinidog Cymru, nid oes angen RIA ar gyfer yr offeryn hwn. Nodir yr eithriad perthnasol ym mharagraff 3.2, sef '*Lle bo'r is-ddeddfwriaeth, yn syml, yn cynyddu ffi statudol yn unol â fformiwla a bennwyd ymlaen llaw, er enghraifft cyfradd chwyddiant'.*

***Effaith ar fusnesau, elusennau a chyrff gwirfoddol***

Mae'r VMD, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban yn gweithio'n agos gydag amrywiol bartneriaid cyflawni arbenigol megis Fera Ltd, yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB), Canolfan Gwyddorau'r Amgylchedd, Pysgodfeydd a Dyframaethu (CEFAS), yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA) ac eraill i gyflawni'r rhaglen. Felly, mae gan yr NRCP y prif elfennau cost canlynol sydd i gyd yn ofynnol er mwyn cyflawni'r rhaglen:

<u>Costau a gontractiwyd yn allanol</u>

- costau samplu
- costau profi
- costau prosesu

<u>Ffactorau allanol eraill sy'n effeithio ar gostau</u>

- lefelau cynhyrchu rhywogaethau (sy'n pennu lefel yr wyliadwriaeth ofynnol)
- contract masnachol hirdymor ar gyfer profi samplau yn arbenigol

<u>Costau mewnol VMD</u>

- costau staff a gorbenion i gyflawni'r cynllun

Roedd y dull o gyfrifo taliadau newydd y diwydiant yn seiliedig ar y rhagdybiaethau canlynol am ysgogiadau cost yn y dyfodol

- rhagwelir y bydd costau a gontractiwyd yn allanol yn cynyddu 10% bob blwyddyn
- rhagwelir y bydd costau mewnol y VMD yn aros yn sefydlog am y 5 mlynedd nesaf
- rhagwelir y bydd costau cyflogaeth a gorbenion yn cynyddu 5% bob blwyddyn

Yn seiliedig ar y rhagdybiaethau, amcangyfrifir mai'r effaith ariannol gyffredinol ar bob busnes a gwmpesir gan yr NRCP yw £500,000 yn 2024 – 2025 a £1.5 miliwn yn 2025 – 2026 ar draws Prydain Fawr. Bydd yr effaith ariannol benodol ar fusnesau unigol yn yr NRCP yn wahanol yn seiliedig ar eu sector a'u lefel gynhyrchu flynyddol. At ddibenion eglurhaol, mae'r effaith ariannol debygol ar un sector o fewn yr NRCP ac ar gynhyrchydd nodweddiadol fel a ganlyn:

- Yn seiliedig ar gyfanswm y gyfradd brosesu flynyddol a amcangyfrifir o 2,284,913 o garcasau a brosesir gan y sector eidion yn y DU, byddai cwmnïau yn y sector yn talu cyfanswm o tua £1.2m yn ystod blwyddyn ariannol 2023 i 2024. Bydd y swm hwn yn cynyddu i £1.4 miliwn rhwng 2024 a 2025, ac £1.7 miliwn rhwng 2025 a 2026 o dan yr Offeryn hwn.
- Byddai cynhyrchwr buchol â chyfradd brosesu nodweddiadol uchel sydd â chyfradd brosesu o 99,559 o garcasau yn talu cyfanswm o tua £60,000 yn ystod 2024 i 2025, a thua £75,000 yn ystod 2025 i 2026 o dan yr Offeryn hwn.

Mae’r ddeddfwriaeth yn gymwys i weithgareddau sy’n cael eu cynnal gan fusnesau bach. Ni chynigir unrhyw gamau penodol i leihau'r baich rheoleiddiol ar fusnesau bach. Bydd y VMD yn parhau i fonitro gweithrediad y cynllun a bydd yn cyflwyno ymgynghoriad cyhoeddus pellach os oes angen newidiadau eraill.

Nid oes unrhyw effaith sylweddol ar elusennau, cyrff gwirfoddol, na'r sector cyhoeddus.

**5. Monitro ac adolygu**

Y dull o fonitro'r ddeddfwriaeth hon yw i'r VMD fonitro'r taliadau yn barhaus i sicrhau eu bod yn cael eu pennu ar lefel er mwyn adennill costau yn llawn mewn perthynas â'r NRCP.